

## **VOICES FROM THE FACTORY FLOOR/ LLEISIAU O LAWР Y FFATRI**

**Gweithrwraig dros dro yn Ffatri Laeth Pont Llanio, Llanio, Ceredigion, 1969**

**Cyfwelai:** **VSW055 Eirwen Elizabeth Jones**

**Dyddiad Geni:** **5 Tachwedd 1951**

**Dyddiad:** **28.4.14**

**Cyfwelydd:** **Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

Ganed Eirwen ar 5 Tachwedd 1951. Roedd mam a thad Eirwen yn byw ym Mhongrhydfendigaid, yn Glynnawen, ac mae'n un o naw o blant. Cafodd wyth plentyn cyntaf ei mam a'i thad eu geni adref (saith brawd ac un chwaer) ond fe gafodd hithau ei geni yn ysbryt'r Priory yng Nghaerfyrddin. Mae aelodau'r teulu dal yn cyfeirio ati fel babi'r teulu. Gweithio fel gwas ffarm oedd ei thad yn ei wneud pan oedd yn ifanc. Buodd yn byw yn Llundain am dair blynedd a gweithio ar rownd laeth ydoedd yno. Cafodd ei eni yn Nhreorci ac roedd yn saith mlwydd oed cyn iddo fynd i fyw yn Llandysul. Dim ond Saesneg roedd e'n ei siarad nes iddo ddod i Landysul. Ganed ei mam yn Ffair-rhos ac nid oedd yn gallu siarad Saesneg nes i'w brawd briodi â rhywun di-Gymraeg. Morwyn ffarm oedd mam Eirwen cyn priodi, yn codi am bump o'r gloch y bore i fynd at y gwartheg, yna'n mynd i neud y brecwast i'r gweision. Roedd yn gyfnod hapus i'w mam, ond yn waith caled iawn am gyflog bach. Aeth ei thad i weithio ar yr un ffarm â'i mam. Gadawodd ei mam hi'r ysgol yn bedair ar ddeg. Roedd yn well gan ei thad fynd i bysgota na mynd i'r ysgol. O Landysul oedd teulu tad Eirwen yn wreiddiol – crudd oedd ei thadcu, a oedd yn gwneud dillad hefyd. Hefyd, roedd yna siop gigydd yn y teulu a chafodd ei thad gyfle i weithio yn ddi ond fe wrthododd. Roedd yn well ganddo weithio ar y fferm, yna aeth i Lundain.

Roedd ei thad yn gweithio ar y 'tar' amser rhyfel. Yna cafodd waith yn gyrru bysus, cyn mynd i weithio ym Mhont Llanio yn gyrru'r lori laeth. Felly, fe symudodd y teulu i Landdewi Brefi er mwyn cael bod yn agos i'r gwaith ym Mhont Llanio.

Aeth Eirwen i'r ysgol fach yn Llandewi Brefi, a'r ysgol uwchradd yn Nhregaron. Roedd Eirwen yn hoffi ysgol ac nid oedd yn colli diwrnod. Roedd ei mam yn gwneud yn siwr o hynny. Roedd yn dal y bws i fynd o Landdewi Brefi i Dregaron. Waunclawdd oedd enw'r tyddyn yn Llanddewi Brefi, lle roedd y teulu'n hunan gynhaliol. Roedd y plant i gyd yn awyddus i fynd allan i weithio ac ennill arian. Roedd ei mam yn siopa'n Llambbed bob dydd

Mawrth lle roedd y rhai â siopau i gyd yn ei hadnabod. (Roedd y farchnad yn Llambed ac yn Nhregaron bob yn ail wythnos.) Byddai ei mam yn cario'r negeseuon i gyd adre ar y bws. Byddai stondinwyr y farchnad yn cadw pethau iddi erbyn iddi ddod. Roedd yn mynd mewn i'r siop ddillad yn Llambed a mynd â sawl siwt adref i'r bois i gael treial. Mewn pythefnos, byddai'n mynd nôl â'r rhai nad oedd eu hangen, a byddai'n talu fel roedd yn gallu.

#### **00.09.30: ‘O’dd pobol yn nabod ei gilydd mor dda, ac o’dd gyda nhw cymint o ffydd.**

Roedd Eirwen yn helpu tipyn ar y tyddyn pan oedd yn tyfu i fyny. Roedd yn gorfol helpu yn y ty bob dydd Sadwrn, ac yn meddwl bod ei brodyr mor ffodus, achos nid oeddynt yn gorfol gwneud gwaith tŷ. (Nid oedd ei thad yn gwneud gwaith tŷ chwaith.) Roedd hi a'i chwaer yn gorfol glanhau'r llofft, brwsho, mynd allan â'r matiau. Yn y prynhawn roedd ei mam yn mynd ati i lanhau, a byddai Eirwen yn treulio'r prynhawn yn ei helpu.

Nid oedd Eirwen yn siwr beth roedd hi am wneud ar ôl gadael ysgol, ond fe aeth ei chwaer i nrysio ac fe benderfynodd Eirwen ei dilyn. Gadawodd yr ysgol yn 1969, yn 17 mlwydd oed, ond roedd yn rhaid iddi fod yn 18 cyn dechrau nrysio felly roedd yn rhaid aros blwyddyn. Aeth rheolwraig y cantîn ym Mhont Llanio yn dost, a rhoddodd y gorau i'r swydd. Dywedodd tad Eirwen wrthi bod y swydd ar gael.

#### **00.13.01: ‘O’n i’n meddwl – grêt – fi’n dechre off fel *manageress*. *Cafeteria manageress – instant!* Ac o’n i’n lico’r syniad. Ac o’n i’n meddwl, reit, mi ddo i.’**

Nid oedd cyfweliad ac mae Eirwen yn cyfaddef roeddynt yn ‘despret’ i lenwi'r swydd.

#### **00.13.34: ‘O’dd merched gatre. O’dd dim o’r merched yn mynd allan i weithio... O’dd hi’n hawdd i ffindo gwaith.’**

O ran disgwyliadau, byddai Eirwen wedi hoffi mynd i ddysgu ond ni chafodd y canlyniadau lefel O a oedd eu hangen. Yr opsiwn arall oedd mynd i nrysio.

Ar y pryd roedd Eirwen eisiau mynd bant achos roedd hi'n gallu gweld byddai hyn yn rhoi mwy o brofiadau iddi. Roedd hi eisiau gweld y byd achos dros wyliau'r haf dim ond un trip i Aberystwyth byddai'n cael. Roedd yn cael trips ysgol Sul i lefydd fel Llandudno. Roedd hi erioed wedi bod i Abertawe neu Gaerdydd. Er hyn, roedd mynd i ffwrdd rhywbeth anodd achos roedd hi yn berson hiraethus, ac nid oedd eisiau mynd yn rhy bell. Roedd ei ffrindiau'n ddigon hapus yn priodi a sefyll yn eu dalgylch eu hunain ond roedd hi'n teimlo ei bod hi ychydig yn fwy mentrus. Ar ôl dechrau nrysio roedd hi'n gallu mynd adre'n rheolaidd ar ddiwrnodau bant a wedyn roedd hi'n gweld ei ffrindiau a fyddai'n gofyn sut roedd hi'n ei wneud. Roedd yn cysylltu â'i mam trwy lythyr gan nad oedd ffôn adref.

Mae Eirwen yn sôn am gael ei danfon ar negeseuon i'w mam yn blentyn a gorfol cerdded milltiroedd. Roedd eu brodyr yn mynd gyda hi er mwyn ei hebrwng, ond hi oedd yr un a oedd yn gorfol mynd i mewn i'r siop a dweud beth oedd ei hangen tra bod eu brodyr yn aros y tu allan.

#### **00.18.11: ‘Heddiw ma’ cymint o hyder ‘da plant.... O’n ni’n shei iawn i gyd a o’n i ddim yn siarad Saesneg o gwbwl.’**

Yn y tyddyn yn Llanddewi Brefi nid oedd dŵr ganddynt yn y tŷ, nid oedd gwres canolog. Roedd lle Tân agored ac roeddynt yn berwi tegell ar hwnna felly roeddynt yn gorfod aros sbel i gael cwpaned o de. Mewn padell o flaen y Tân roeddynt yn cael bath a hynny ar nos Sul. Pan roedd ei mam yn dechrau rhoi'r bwyd roedd hi'n dechrau gyda'r hena – ei thad yn gyntaf ac yna gweithio ei ffordd trwy'r plant felly byddai Eirwen yn ddiwethaf bob tro.

Roedd penderfynu fynd i nysrio y flwyddyn cyn mynd i weithio ym Mhont Llanio . Roedd wedi ymgeisio, a chael lle yn Aberystwyth. Roedd yn gwybod y byddai'n dechrau'r cwrs ar 4 Ionawr 1970. Roedd y swydd ym Mhont Llanio yn gyfle da iawn i ennill arian. Mae'n teimlo ei bod wedi rhoi ychydig o hyder iddi ar ôl gadael ysgol achos roedd gofyn iddi gyfathrebu gyda phobol eraill yn rhinwedd ei swydd. Roedd tua wyth deg o bobol yn gweithio yno. Dynion oedd y mwyafrif o'r gweithwyr yno ar y pryd. Dim ond tua pedair menyw oedd yno, erbyn hynny (yn y lab).

**00.21.14: 'O'dd e'n dipyn o gyfrifoldeb, yn edrych nôl, jest cael 'yn nhafn fan'na. Ges i ddim diwrnod â neb gyda fi yn gweud 'tho fi beth i neud.'**

Roedd Wil Bach wedi bod yn rhedeg y cantîn yn y cyfnod roedd Nansi (y cyn rheolwr) yn sâl, felly fe wedodd wrthi am roi crochan o ddŵr ar y Tân gydag wyt peint ynddo, a wedyn yn rhoi'r powdwr i wneud y *soup*. Byddai'n rhoi troiad iddo nawr ac yn y man. Roedd bara ffres yn cyrraedd er mwyn iddi wneud brechdanau, ac roedd yn gallu gwneud unrhyw frechdanau roedd hi eisiau. Roedd rhaid gofalu fod pob dim yn barod i'r lot cyntaf a ddeuai lan am hanner awr wedi naw.

Roedd yn cael lifft i'r gwaith gyda 'Dai Bear' er bod sawl un arall yn cynnig hefyd.

**00.23.04: 'O'n nhw'n bobol hyfryd, o'dd lot o sbort 'da nhw'.**

Dim ond hi oedd yn gweithio'n y cantîn ar ei phen ei hun. Roedd hi wedi bod yn helpu ei mam adref felly roedd ganddi dipyn o syniad o'r hyn oedd angen ei wneud. Roedd y prisiau wedi ysgrifennu lawr iddi.

Nid oedd yn teimlo'n swil yn y ffatri achos taw ffrindiau ei thad oedd rhan fwya'r gweithwyr, ac achos ei bod yn un o deulu mawr roedd hi'n gorfod sefyll lan dros hi ei hunan.

I Eirwen, fel merch ifanc, roedd y gweithwyr yn edrych yn hen. Am hanner awr wedi naw byddent yn dod i fyny o'r ffatri ac yn eistedd yno, ac 'roedd lot o ddwli gyda nhw'. Byddent yn trio cydio ynddi a chael Eirwen i eistedd yn eu côl, neu gofyn iddi am gusan. Byddai Eirwen yn eu gyrru allan wedyn, ac yn cloi'r drws, achos 'o'n nhw bach yn ddrwg.'

**00.25.57: 'Ond holol, holol diniwed. ... Ond o'dd lot o ddireidi.'**

Os oedd tad Eirwen yn dod roeddynt yn bihafio.

Roedd yn cloco mewn am wyth o'r gloch pan roedd yn cyrraedd, ac yn clocio allan am bedwar o gloch. Roedd rheolwr yno i siecio bod neb yn cloco mewn ar ran neb arall ond roedd hyn yn digwydd.

**00.27.21: 'O'dd pob drygioni'n cael ei wneud yn Pont Llanio.'**

Roedd yn anodd darganfod pwy oedd wedi clocio mewn ar gyfer rhywun arall ac ni fyddai neb yn cyfaddef. Roedd rhai'n gadael a chael rhywun arall i gloco mas ar eu cyfer hefyd.

Roedd pwyslais mawr yn y ffatri ar lendid.

‘O’n i’n gorfol glanhau, glanhau, glanhau yn ddyddiol’.

Ond nid oedd neb yn siecio ei bod wedi gwneud hyn.

Pan roedd Eirwen yn yr ysgol roedd yn mynd gyda’i thad i gasglu tshyrns yn eithaf aml. Dyna ddiwrnod mas gorau'r gwyliau. Ambell waith byddai'n dod nôl â llo bach gyda fe ar y lori. Efallai byddai'n agor tshyrn a byddai Eirwen yn cael cymaint o laeth a fynnai.

Buodd un o frod yr Eirwen yn gweithio'n yr adran bowdwr yn y ffatri pan roedd Eirwen yn yr ysgol gynradd. Buodd yn gweithio yno am flynyddoedd a gweithio shifft nos roedd ef yn ei wneud. Pan roedd Eirwen yn groten nid oedd yn gallu deall paham roedd e'n y gwely yn ystod y dydd.

Cred Eirwen bod yna fwy o ferched yn gweithio'n y ffatri yn ystod y chwedegau ond roddynt wedi cwtogi ar y rhifoedd oherwydd eu bod nhw wedi stopio gwneud menyn. Erbyn bod Eirwen yn mynd yno roedd lot o'r llaeth yn mynd i Felinfach hefyd. Caeodd y ffatri tua 1974 a buodd y ffactri'n lot mwy llewyrchus yn y chwedegau.

Pan ddechreuodd Eirwen yn y ffatri roedd yn teimlo mor gyffrous ei bod hi'n mynd i ennill arian. Roedd y cyflog tua chwe phunt yr wythnos ac roedd Eirwen yn hapus iawn gyda'r arian.

#### **00.32.52: ‘Roedd e’n arian mawr i fi bryd ‘nný.’**

Roedd Eirwen yn cynilo'r arian a phrynu dillad newydd i fynd i ffwrdd i nrysio.

Pan roedd yn un ar bymtheg roedd yn byw gyferbyn â'r or saf heddlu. Roedd gwraig y plismon yn gweithio mewn cartref, ac roedd ganddynt ferch fach a oedd wedi ei mabwysiadu a oedd tua chwe mlwydd oed. Roedd Eirwen yn mynd yno i aros dros nos achos bod ei mam allan yn y gwaith, a'r plisman allan ar alwad. Byddai Eirwen yn mynd â'i llyfrau ysgol gyda hi, ac yn aros dros nos. Roedd yn cael 'dou a chwech' yn gyflog, am aros yno dros nos. Byddai'n chwarae gydag Elizabeth, y ferch fach, ac yna'n mynd i fyny'r lloffft tua naw o'r gloch gyda'i llyfrau. Ni fyddai ganddi unrhyw syniad am faint o'r amser byddai'r tad allan.

Buodd yn gweithio ym Mhont Llanio tua phum mis. Roedd yn gweithio pum niwrnod yr wythnos. Nid oedd y cantîn yn darparu bwyd ar ddydd Sadwrn. Nid oedd hyfforddiant fel y cyfryw ar gyfer y swydd, ar wahan i ddangos i Eirwen sut i wneud y *soup*. Daeth Wil Bach lan ar ddiweddu y diwrnod cyntaf i ddweud wrthi bod eisiau sychu'r byrddau. Yn ôl Eirwen, roedd Wil yn gymeriad.

#### **00.36.09: ‘Un bach o’dd e. O’n i’n gallu cwmpo Wil, os o’dd Wil yn mynd yn ddrwg o’n i’n gallu cwmpo Wil. ... O’n nhw’n tynnu co’s yn ofnadw. ... O’dd e’n brofiad a fuodd yn help i fi ar ôl mynd bant... O’n i wedi dod yn gyfarwydd â siarad a ymwneud â pobol falle.’**

**‘O’n i’n nyrsio wedyn, a nyrsio dynion a o’n i ddim yn ofan o gwbwl. O’n i wedi cyfarwyddo â tynnu co’s.’**

Nid oedd Eirwen yn gweld llawer o’r merched eraill oedd yn gweithio’n y ffatri. Roedd hi wastad yn fwy ofnus ohonyn nhw ac yn poeni bydden nhw’n ei beirniadu, ond o’n nhw’n hyfryd.

Nid oedd Eirwen yn mynd allan yn ystod yr adeg yma. Mae ganddi gof o fynd allan i ddawns un neu dda o weithiau yn unig. Ni fuodd hi mewn tafarn yn Llanddewi Brefi. Nid oedd yn mynd i dafarnau yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oedd Eirwen yn talu am ddim byd yn y ffatri. Pan aeth i weithio’n y ffatri a gweld yr holl greision a’r siocledi roedd wrth ei bodd. O ganlyniad roedd wedi magu tipyn o bwysau.

Dynion oedd rheolwyr y ffatri a Saeson oeddynt, fynycha. Roedd un rheolwr yna drwy’r amser ond nid oedd Eirwen byth yn ei weld ef. Mae Eirwen yn ystyried bod y Bwrdd Marchnata Llaeth yn gwmni da i weithio iddyn nhw, ac yn garedig iawn. Roedd ei thad yn cael hampyr ganddynt bob blwyddyn yn cynnwys menyn, caws, tuniau ffrwythau, tuniau o eog, bocsys siocledi. Roeddynt yn cael cinio am ddim bob blwyddyn. Dyma’r unig achlysur byddai ei mam a’i thad yn mynd allan oedd cinio gwaith Pont Llanio.

Mae Eirwen yn disgrifio’r cwmni fel cyflogwr teg yn ôl y ffordd cafodd ei thad ei drin, a chael pensiwn wedi iddo ymddeol.

Buodd y gweithwyr yn y ffatri ar streic yn 1968 (cyn iddi weithio yno.) Nid yw Eirwen yn gwybod paham. Buodd ei thad ar streic hefyd felly, ond gwnaeth dim lles i’r ffatri yn y pen draw.

Roedd Eirwen yn gwisgo’r un math o *overall* â’r merched yn y labordy. Nid oedd yn gwisgo menyg i wneud y brechdanau. Os oedd digwydd bod problem gan Eirwen yn y gwaith byddai’n mynd at ei thad, ond mewn gwirionedd nid oedd ganddi neb drosti.

Nid oedd rheolau yn y ffatri.

**00.48.22: ‘Os o’ch chi’n cwmpo, wel tyff ife. Os o’dd y llawr yn wlyb ac o’ch chi’n digwydd cwmpo wel tyff o’dd hi.’**

Nid oedd Eirwen yn mynd i’r tŷ bach drwy’r dydd.

Roedd y ffatri’n swnllyd iawn ac roedd yn gallu clywed y peiriannau. Roedd y loriau yn chwythu allan lot o gemegau, ac roedd yn gallu aroglu’r petrol. Nid oedd y ffatri’n cael ei gwresogi ond roedd y gweithwyr yn gwisgo digon o ddillad amdanynt.

Roedd y cantîn yn brysur drw’r dydd. Byddai’n dechrau cau tua tri o’r gloch. Roedd llawer o’r gweithwyr yn ysmgu, ac roeddynt yn ysmgu’n y cantîn. Nid oedd Eirwen yn caniatau iddynt ddod mewn i’r gegin lle roedd hi’n gweithio ac ysmgu man hynny.

Mae Eirwen yn cofio’r tro cyntaf daeth ei thad i’r cantîn i gael bwyd ar ôl iddi ddechrau yno. Archebodd fwyd wrthi a rhoi’r arian iddi. Rhoiodd hi newid nôl iddo o fewn ciniog neu ddwy i’r hyn roedd e wedi rhoi iddi, ond mynnodd ei thad ei fod e’n talu’n iawn.

Roedd y ffatri'n cadw i fynd drwy'r flwyddyn, ac roedd tad Eirwen yn gweithio dydd Nadolig yn casglu'r llaeth.

Roedd y gweithwyr eraill ym Mhont Llanio yn gwybod taw dros dro roedd Eirwen yno ac yn ei phoeni y byddai'n ffeindio rhyw ddyn ar ôl mynd i ffwrdd, ac i 'watsho mas' am ddoctoriaid tywyll eu croen. Roedd lot o hiwmor cefn gwlad yno. Cymraeg oedd iaith y ffatri, fwya. Roedd un neu ddau yn siarad Saesneg ond nid oedd Eirwen yn cyfathrebu llawer gyda nhw achos nid oedd yn siarad llawer o Saesneg ei hun. Roedd hyn yn broblem iddi pan aeth i nyrsgio yn Aberystwyth, ac yn dipyn o sioc iddi taw Saesneg oedd y merched eraill. O ganlyniad, nid oedd Eirwen mor hyderus a theimlai'n israddol.

#### **00.55.39: 'O'n i'n teimlo, ma' 'da nhw fantes arna i.'**

Pan gafodd canlyniadau ei harholiad nyrsgio roedd wedi cael marc da, cystal os nad yn well na'r lleill na nhw, a thrwy hynny roedd wedi cael cyfle i ad-ennill ei hyder. Pan aeth ar y wards roedd yn gallu siarad Cymraeg, unwaith eto. Nid oedd wedi gorfod siarad Saesneg ym Mhont Llanio. Roedd teledu ganddi adref ond nid oedd yn cyfathrebu'n Saesneg. Mae Eirwen yn tristau i feddwl nad yw rhieni yn siarad Cymraeg â'u plant heddiw.

Yn ystod y cyfnod roedd yn gweithio ym Mhont Llanio nid oedd yn mynd allan yn y nos. Byddai'n chwarae tenis ar y stryd.

#### **00.59.25: 'O'dd e'n gyfnod neis iawn, achos o'n i'n teimlo, o'n i'n byw gatre hefyd, a o'dd hwnna wedi bod yn neis.... O'dd dim un *homework* 'da fi, dim byd fel 'na. So o'dd hwnna'n gyfnod hapus, hapus.'**

Y capel nid y ffatri oedd y canolbwyt ar gyfer cymdeithasu.

#### **'Y capel o'dd yn dod â ni at 'yn gilydd.'**

Roedd Eirwen yn teimlo'n gyffrous am adael y ffatri achos ei bod hi'n mynd ymlaen i nyrsgio. Roedd yn teimlo'n barod i adael y nyth. (Ond ar ôl mynd roedd ganddi hiraeth.)

Pan aeth i nyrsgio roedd yn rhannu ystafell gydag un o'r merched eraill, a oedd yn hoffi mynd allan drwy'r amser ac yn ysmaygu. Nid oedd Eirwen yn mynd allan nac yn ysmaygu. Nid oedd y ferch yn ei hoffi oherwydd nid oedd Eirwen yn gallu cyfathrebu'n Saesneg a gofynnodd am gael ei symud i rannu gyda rhywun arall.

Mae Eirwen yn disgrifio bywyd ar yr aelwyd, lle roedd bwyd ar y ford drwy'r dydd.

Mae'n disgrifio ei hamser ym Mhont Llanio fel '**cyfnod hapus .. o'dd e'n brofiad newydd.**' Roedd hi wastod wedi eisiau gweithio mewn siop hefyd, ac mae'n teimlo ei bod hi wedi cael y profiad hwnnw, mewn ffordd, trwy weithio ym Mhont Llanio. Roedd hi'n teimlo fel plentyn yn rhedeg siop fach.

#### **01.05.20: 'Tu ôl 'yn feddwl o'n i'n gwbod bod 'yn nhad 'na, a gwbod bod e'n dod, os o'dd unrhyw beth, o'n i'n gwbod sen i ond yn gweud 'tho fe, a bydde fe'n rhoi nhw yn eu lle. O'dd y dawn 'nn y gyda fe.'**

## *English summary*

### **Temporary worker, Pont Llanio Milk Factory, Llanio, Ceredigion, 1969**

**Interviewee:** **VSW055 Eirwen Elizabeth Jones**

**Date of birth:** **5 November 1951**

**Dyddiad:** **28.4.14**

**Interviewer:** **Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales**

Eirwen's parent lived in Glynawen, Pontrhydfendigaid. She was one of nine children. Her brothers and sister were born at home, but she, the youngest, was born in the Priory Hospital in Carmarthen. Her father worked as a farm hand when he was young. He also lived in London for a while, and worked on a milk round. He was born in Treorchy and moved to Llandysul when he was seven years old where he learnt Welsh. Her mother was born in Ffair-rhos and couldn't speak English until her brother married somebody who couldn't speak Welsh. Her mother was a farm maid before getting married, and would have to get up at five o'clock in the morning to see to the cattle, and make breakfast for the farm hands. This was a happy time for her mother but it was hard work for little money. Her father went to work on the same farm as her mother. Her mother left school when she was fourteen. Her father preferred to go fishing than go to school. Eirwen's grandfather was a cobbler from Llandysul who also made clothes. There was also a butcher's shop in the family and her father was offered work there but he refused. He preferred to work on the farm, and then went to London.

Her father worked on the 'tar' during the war. Then he got work driving buses before getting a job in Pont Llanio driving the milk lorry, so the family moved to Llanddewi Brefi in order for him to be closer to work.

Eirwen went to primary school in Llanddewi Brefi and secondary school in Tregaron. Eirwen liked school and never missed a day. Her mother made sure of that. She caught the bus from Llanddewi Brefi to Tregaron. Waunclawdd was the name of the small holding in Llanddewi Brefi, where the family were self-sufficient. All the children were eager to go out to work and earn money. Her mother shopped in Lampeter every Tuesday, where all the shopkeepers knew her. (The market was in Lampeter and Tregaron every other week.) Her mother would carry all the bags home on the bus. All the stall holders would put things by for her until she came. She would go into the clothes shop in Lampeter and would take several suits home for the boys to try on. After a fortnight she would take the ones she didn't want back and pay as she could for whatever she kept.

#### **00.09.30: 'People knew each other so well, and they had so much faith in each other.'**

Eirwen helped quite a bit on the farm when she was growing up. She had to help with the house work every Saturday and thought that her brothers were lucky because they didn't have to do it. (Her father didn't do any housework either.)

Eirwen decided to follow her sister into nursing. She left school when she was seventeen years old in 1969 but couldn't start nursing until she was eighteen. The manageress of the canteen in Pont Llanio fell ill, and gave up her job. Eirwen's father told her that there was a vacancy. She said,

**00.13.01: 'I thought – great – I'm starting as a manageress. Cafeteria manageress – instant! And I liked the idea. And I thought, right I'll do it.**

There was no interview as they were desperate to fill the post.

**00.13.34: 'Girls stayed at home. They didn't go out to work... It was easy to find work.**

Eirwen would have liked to have gone to teach but didn't get the O level results needed and the next best choice she could make was to go nursing.

At the time Eirwen wanted to go away to work as she thought this would give her more experience. Over the summer holidays she would go on a trip to Aberystwyth but she wanted to see the world. She would go on a Sunday School trip to Llandudno but she had never been to Cardiff or Swansea. The prospect of going away was a difficult one for Eirwen because she was the type of person to feel homesick. Her friends were happy enough to get married and settle down in their area but she felt she was a little bit more adventurous. After she started nursing she would go home regularly on days off and she could then see her friends who would ask her how it was going. She would communicate with her mother by letter as her family didn't have a phone at home.

Eirwen talks of being sent on errands for her mother and would have to walk miles. Her brothers would escort her but she was the one who would have to go into the shop and say what was required, while her brothers waited outside.

**00.18.11: 'Kids today have so much confidence ... I was very shy and I didn't speak a word of English.'**

They didn't have running water or central heating in the small holding in Llanddewi Brefi. There was an open fire and they boiled the kettle on it so they would have to wait a while for a cup of tea. They would have a bath on a Sunday night using a bowl of water in front of the fire. When her mother dished out the food she would start with the oldest – her father was first and then she worked her way down to Eirwen, as the youngest.

She'd made the decision a year before getting the job in Pont Llanio and had got a place in Aberystwyth starting on 4<sup>th</sup> January, 1970. The job in Pont Llanio was a good opportunity to earn some money. She feels that it gave her some confidence during the period after she had left school because she had to communicate with other people. There were about eighty people working there. The majority of the workers were male, and there were only about four women working there (in the lab).

**00.21.14: 'It was quite a lot of responsibility, looking back, just being thrown in there. I didn't have a day with anybody telling me what I was supposed to do."**

Wil Bach had been running the canteen since Nansi (the former manageress) had become ill. He told her she would need to put a large pot of water on the stove in order to make the soup

and then add the powder. She would give it a stir now and again. Fresh bread would arrive in order for her to make sandwiches. She could make any type she wanted to but had to ensure that everything was ready by the time the first lot arrived at half past nine.

She would get a lift into work from 'Dai Bear' but many others offered as well.

**00.23.04: 'They were lovely people, and lots of fun.'**

She worked in the canteen on her own. She had helped her mother a lot at home so she had a good idea of what she should be doing. The prices were written down for her.

She didn't feel shy there because most of the workers were friends of her father, and because she had a big family she'd had to stand up for herself.

The workers seemed old to Eirwen. When they came in at half past nine they would try and grab her and get her to sit in their lap, or ask her for a kiss. Eirwen would then send them out and lock the door.

**00.25.57: 'But totally, totally innocent ... But there was a lot of mischief.'**

If Eirwen's father was present they would behave themselves.

He would clock in at eight o'clock and clock out at four. The manager would make sure that nobody checked in on anybody else's behalf.

**00.27.21: 'They got up to all types of mischief in Pont Llanio.'**

If somebody had clocked in for somebody else, it was difficult to find out who had done it as nobody would own up. (Some would leave early and get somebody else to clock out on their behalf.)

There was a strong emphasis on cleanliness in the factory.

'We had to clean, clean, clean every day.'

But nobody checked to see that the work had been done.

When Eirwen was in school she would accompany her father to collect the churns quite often. This would be the best day out of the holidays. Sometimes he would come home with a little calf on the back of the lorry. He might open a churn and Eirwen could help herself to milk.

One of Eirwen's brothers worked in the powder factory when she was in primary school. He worked night shift there for years and Eirwen couldn't understand why he would be in bed during the day.

Eirwen thinks that there had been more women working there in the 1960s, when the factory was flourishing, but the number had been reduced after they stopped producing butter. By the time Eirwen started there much of the milk would be sent to Felinfach.

Eirwen's wage was six pounds per week.

**00.32.52: ‘It was big money, in my eyes.’**

Eirwen saved her wages and bought new clothes in order to go away to nurse.

When she was sixteen she lived opposite the police station. The policeman’s wife worked in a home and they had an adopted daughter who was approximately six years old. Eirwen would stay the night there when the mother was working overnight and the policeman was out on call. Eirwen would take her school books with her and would be paid ‘two and six’ per night. She would play with the little girl and go upstairs at about nine o’clock with her books.

She worked in Pont Llanio for about five months, five days a week. Wil Bach came up at the end of the first day to tell her to wipe the tables. He was quite a character.

**00.36.09: ‘He was only little. I could floor Wil, if he was being naughty, I could floor him... they were terrible for leg pulling ... It was an experience that helped me after I went away ... I’d become accustomed to talking and dealing with people...’**

**‘I began nursing then, and nursing men, and I wasn’t scared at all. I was accustomed to leg pulling.’**

Eirwen didn’t see much of the other women who worked in the factory. She was always more wary of them because she thought they would judge her but they were always lovely.

Eirwen never went out in the evening apart from one or two dances she went to during this period. She never went to a pub in Llanddewi Brefi and indeed never went to pubs in those days.

Eirwen didn’t have to pay for anything in the factory. When she started there and saw all the crisps and chocolates in the canteen she was delighted as she could help herself. As a result she put on a lot of weight.

The managers were male and English usually. There was one manager there all the time but Eirwen never saw him. She thinks that the Milk Marketing Board was a good company to work for and very kind. Her father would get a hamper from them every year including cheese, butter, tins of fruit, tins of salmon and boxes of chocolates. The workers would get a free Christmas lunch every year. This was the only occasion when her parents went on a night out together.

The workers went on strike in 1968 before she worked there, but Eirwen doesn’t know why. Her father was on strike, but it did the workers no good in the long run.

Eirwen wore an overall like the girls in the lab. She didn’t really have a supervisor and if she had a problem she could go to her father. There didn’t seem to be any rules there.

**00.48.22: ‘If the floor was wet and if you fell it was tough luck.’**

The factory was noisy because of the machines. The lorries spewed out a lot of chemicals and smelled of petrol. It wasn’t heated so the workers had to wear plenty of warm clothing.

The canteen was busy all day. Many of the workers smoked in the canteen. Eirwen wouldn't allow them into the kitchen to smoke there. Eirwen remembers the first time her father came to have lunch in the canteen after she had started working there. He ordered food from her and gave her the money. She gave him change and only charged him a penny or so but he insisted that he paid in full.

The factory operated throughout the year and Eirwen's father would collect milk on Christmas day.

The workers in Pont Llanio knew that Eirwen was there on a temporary basis and would tease her about finding a man after she'd moved away. Welsh was the language of the factory. There were one or two workers who didn't speak Welsh but she didn't communicate much with them because she didn't speak much English. This was difficult for her when she went to Aberystwyth to do her nursing course. It made her feel that the other student nurses were superior to her. When she had her examination results she had done just as well, if not better than the others. She could speak Welsh when she was on the wards.

It was the chapel rather than the factory that was the focus of her social life. She was happy to be leaving the factory to go nursing, but after she'd left she missed it.

Eirwen describes the experience of sharing a room when she went nursing. She didn't get on with her room-mate because she couldn't speak English.

She describes her time in Pont Llanio as 'a happy time... it was a new experience.' She'd always wanted to work in a shop and she felt like a child working in her own little shop during this period.

**01.05.20: 'At the back of my mind, I knew that my father was there, and if anything was wrong I could call upon him, and he'd put them in their place. He had that skill.'**